OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 180 (Cy. 40)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A466 (Cylchfan Newhouse i Gylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Chwefror 2020* |
| *Yn dod i rym* | *27 Chwefror 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A466, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), 84(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A466 (Cylchfan Newhouse i Gylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya) 2020 a daw i rym ar 27 Chwefror 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A466 Llundain i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces"*) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### Dirymu

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A466 (Ffordd Gyswllt Dyffryn Gwy, Cas-gwent, Gwent) (Dileu Cyfyngiadau) 1994(**3**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Chwefror 2020

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(**3**) O.S. 1994/2236

## ATODLEN 1
## Terfyn Cyflymder 40 mya

Y cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Newhouse, Cas-gwent, Sir Fynwy.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Newhouse hyd at bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder 50 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o ochr ogleddol Cylchfan Newhouse hyd at bwynt 15 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy.